OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 666

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

### RHAN 14

Datgymhwyso a Dirymu

**Datgymhwyso'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes**

**67.**—(1) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Embryonau, Ofa a Semen 1980(**1**) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio embryonau, ofa a semen rhywogaeth y ddafad a'r afr.

(2) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid a Chynhyrchion Dofednod 1980(**2**) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio'r cynhyrchion y cyfeiriwyd atynt yn rheoliad 3(3) o'r Rheoliadau hyn.

(3) Ni fydd y canlynol yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt——

(a) Rheoliadau Mewnforio Semen Gwartheg 1984(**3**); a

(b) Rheoliadau Bwyd a Fewnforir 1984(**4**).

**Dirymu**

**68.** Mae'r Rheoliadau canlynol wedi'u dirymu—

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004(**5**);

(**1**) O.S. 1980/12, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1984/1326, 1990/2371, a 1994/2920.
(**2**) O.S. 1980/14, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1982/948, 1990/2371, 1994/2920 a 1994/3142, ac o'i ddarllen ynghyd ag O.S. 1997/322.
(**3**) O.S. 1984/1325, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1966.
(**4**) O.S. 1984/1918, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2371, 1997/2537 a 2000/656.
(**5**) O.S. 2004/1430.